**Ymateb i'r Ymgynghoriad ar Sicrhau Twf: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014 – 2020**

**Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru**

Diolch am ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar gynigion cyfredol y Gweinidog ar gyfer llunio Cynllun Gweithredu ar gyfer Bwyd a Diod.

Rydym yn gweithio fel rheoleiddiwr, partner a chynghorydd i fusnesau, sefydliadau anllywodraethol, Awdurdodau Lleol a chymunedau i helpu i gyflawni polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Rydym yn defnyddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem i hyrwyddo datblygu cynaliadwy sy'n sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl Cymru.

Yn aml, bydd cynhyrchwyr bwyd a diod angen Trwyddedau Amgylcheddol i allu gweithredu. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rheoleiddio'r cyfleusterau hyn, ac, yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth amgylcheddol, rydym yn dylanwadu ar berfformiad safleoedd ac yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddoeth. Dylai'r cynllun gweithredu gydnabod gwaith rheoleiddio, dylanwad a chyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ar y cyfleusterau hyn.

Trwy ein gwaith yn rheoleiddio'r sector bwyd a diod, rydym yn ceisio cyflawni'r amcanion amgylcheddol canlynol yn unol â'n cynllun ar gyfer ein sector bwyd a diod ein hunain:

- Cynhyrchu llai o wastraff a rheoli gwastraff yn fwy cynaliadwy;
- Gwneud y defnydd gorau o ddŵr a sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl i'w ailddefnyddio;
- Gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion o lygru difrifol, a'u heffaith amgylcheddol;
- Llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- Llai o effaith allyriadau aroglau a sŵn ar gymunedau lleol.

Mae ein hymateb manwl i'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad i'w weld isod.

**C1 Sut y byddech chi'n newid neu'n ychwanegu at y datganiad cenhadaeth?**
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r datganiad cenhadaeth ac mae o'r farn y bydd rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith yn creu fframwaith ar gyfer:

- integreiddio'r gadwyn gyflenwi bwyd a diod yn llawn o'r sylfaen gynhyrchu amaethyddiaeth a physgodfeydd i'r cynnyrch terfynol,
- helpu i ddatblygu cydnerthedd o'r cynhyrchwyr cynradd i'r proseswyr a'r manwerthwyr a'r diwydiant croeso,
- hyrwyddo rheoli cynaliadwy yn y system gyflenwi drwyddi draw o ffermwyr a physgotwyr i'r cynnyrch.

Nid ydym yn credu bod y cynllun drafft yn cyflawni hyn yn llwyr a byddwn yn gwneud nifer o argymhellion mewn ymateb i'r cwestiynau penodol er mwyn dangos sut y gellid cyflawni'r amcanion hyn.

Gwnaeth y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ddatganiad yn hydref 2013 a bwysleisiai fod adnoddau naturiol, yn cynnwys bwyd, yn allweddol i lwyddiant ein heconomi a lles y gymdeithas. Nododd y datganiad fod yn rhaid i Gymru weithredu ar frys i feithrin cynaliadwyedd, cynyddu cydnerthedd ac amrywiaeth, a rheoli adnoddau'n effeithlon. Rhaid datblygu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Bwyd a Diod yn unol â'r egwyddorion hyn a cheisio datblygu cydnerthedd a chefnogi Twf Gwyrdd.

**C2 A yw'r themâu cyffredinol yn briodol? A oes 'na themâu eraill?**
Rydym yn cefnogi'r tair thema gyffredinol ond nodwn fod agweddau, er enghraifft y thema 'delwedd', sydd angen eu datblygu ymhellach. Yn benodol, bydd sicrhau bod cynaliadwyedd amgylcheddol yn ganolog i ddelwedd yn allweddol gan y gallai unrhyw effeithiau negyddol danseilio'r brand. Tanlinella hyn yr angen i ddeall egwyddorion sylfaenol cynhyrchu a phrosesu yn llawn ac i sicrhau bod pob cyflenwr a phrosesydd yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol ac arferion gorau.

**C3 A ydych chi'n ymwrthod ag unrhyw un o'r saith blaenoriaeth? Beth arall y byddech chi'n ei gynnig? Sut y byddech chi'n rhoi'r blaenoriaethau yn nhrefn eu pwysigrwydd?**
Nid ydym yn ymwrthod ag unrhyw un o'r saith blaenoriaeth yn llwyr, ond credwn fod y pwyslais ar newid yn yr hinsawdd yn gamarweiniol, gan fod y materion y mae'r flaenoriaeth yn ymdrin â nhw yn cynnwys ystod ehangach o faterion amgylcheddol. Awgrymwn y dylid rhoi'r pennawd 'Cynhyrchu Cynaliadwy', sy'n cynnwys newid hinsawdd, yn lle 'Newid yn yr Hinsawdd'.

Nid yw'r Cynllun yn cyfeirio'n benodol at yr amrywiaeth o drwyddedau amgylcheddol sy'n berthnasol i'r diwydiant bwyd, fel y nodwyd ar ddechrau'r ymateb hwn. Mae cydymffurfio â safonau yn rhan angenrheidiol o gyflawni amcanion amgylcheddol. Dylid gweld hyn fel rhan hanfodol o nod cyffredinol cynaliadwyedd, sef y nod sydd wrth wraidd y cynllun.

**C4 Beth ddylai rôl a chyfrifoldebau Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru fod?**
Deallwn y byddai'r Ffederasiwn arfaethedig yn gyfrifol am gyflawni'r Cynllun Gweithredu ac yn dod yn ganolbwynt i sector bwyd a diod Cymru. Fel y cyfryw, byddai angen iddo sefydlu cysylltiadau'n gyflym â phob rhan o'r gadwyn gyflenwi a'r holl randdeiliaid perthnasol eraill gan barhau i gynnal ffocws pendant a bod yn effeithlon. Awgrymwn y dylai'r Ffederasiwn sefydlu nifer o is-grwpiau ar gyfer sectorau neu themâu penodol, ar ffurf grwpiau gorchwyl a gorffen o bosibl, er mwyn cyflwyno gwybodaeth benodol, gyda grŵp trosfwaol ar gyfer datblygu'r Cynllun.

**C5 Pwy ddylai fod yn aelodau o Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru?**
Er mwyn sicrhau'r cymhathu sy'n angenrheidiol yn y sector drwyddo draw, bydd yn rhaid i'r aelodau gynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r sector, o'r cynhyrchwyr cynradd i bwyntiau terfynol manwerthu a'r sector croeso. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu'r cyfle i fod yn rhan o'r Ffederasiwn lle y gall ei brofiad a'i arbenigedd ychwanegu gwerth.

**C6 Sut y dylid datblygu delwedd Bwyd a Diod Cymru er budd gorau busnesau bwyd a datblygu'r farchnad?**

Mae’r cynllun yn cydnabod bod angen “marchnata a hyrwyddo cynhyrchion bwyd Cymru er mwyn manteisio i’r eithaf ar ein tirwedd ac ar ffermio naturiol Cymru sy’n seiliedig ar borfa” (7.2) a “nodweddion naturiol ei thirwedd” (10.38). Fodd bynnag, nid yw’n tynnu sylw at arfordir a moroedd Cymru, er gwaethaf eu pwysigrwydd i Gymru. Gall pob math o gynhyrchiant gael effaith. Mae’r rhan fwyaf o ffermydd Cymru yn defnyddio mewnbwn allanol (gwrtaith, plaladdwyr ac ati) a llygredd gwasgaredig o amaethyddiaeth yw un o’r prif resymau dros fethiant cyrff dŵr i gydymffurfio â Chyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE. O ran pysgodfeydd, ceir effeithiau posibl ar gyflenwadau gwyllt a rhai arferion rheoli dwys (er enghraifft, cynhyrchu cregyn gleision) a dyframaeth. Cymru sy’n cynhyrchu rhai o’r pysgod cregyn gorau yn y DU, ond mae bron y cyfan yn cael ei allforio i Ewrop. Mae angen marchnata pysgod cregyn yn lleol, a phwysleisio ei fod yn gynnyrch cynaliadwy ag iddo ôl troed carbon isel.

Gallai methiannau i gynnal safonau derbyniol niweidio brand bwyd a diod Cymru. Mae hyn yn berthnasol hefyd i’r nifer o weithgareddau yn y sector sy’n cael eu rheoleiddio gan Cyfoeth Naturiol Cymru, er enghraifft, gollwng elifion. Oherwydd hyn, dylai cynhyrchu cynaliadwy fod yn seiliedig ar ymlyniad at arferion da, wedi’i gefnogi gan ardystiad (er enghraifft y safonau Organig) a chydymffurfiaeth â safonau a reoleiddir lle y bo’n briodol.

Un enghraifft o achrediad sy’n berthnasol iawn i gynhyrchu cynaliadwy a chynnyrch o ansawdd uchel yw achrediad y Cyngor Stiwardiaeth Forol. Y defnydd ohono yng nghilfach Tywyn oedd y dyfarniad cyntaf o’i fath i bysgodfa cregyn deuglawr yn y byd, sy’n dystiolaeth fod Cymru yn arwain ar gynaliadwyedd mewn rhai meysydd. Mae achrediad y Cyngor Stiwardiaeth Forol i Afon Menai yn enghraifft o fenter yn cael ei harwain gan y diwydiant sy’n ychwanegu gwerth at eu cynnyrch drwy arferion cynaliadwy. Mae aelodau Cymdeithas Cynhyrchwyr Cregyn Gleision Bangor yn gweithio’n glòs â Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae’n amlwg fod angen gwarchod a chynnal mentrau a safonau o’r fath a dylai hyn fod yn flaenoriaeth i’r Cynllun Gweithredu.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cefnogi cais West Wales Coracle / Cnwd i gael statws Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI) i’w cynnyrch eog a sewin. Mae’r dynodiad yn rhoi cyd-destun Ewropeaidd i farchnata ac mae potensial i’w ymestyn i gynhyrchion eraill.

**C7 Sut y gallai'r diwydiant bwyd ddenu rhagor o bobl ifanc a sut y gellid gwella lefelau cadw staff?**

Mae cynlluniau a grantiau llwyddiannus gan Lywodraeth Cymru yn y sector tir ar hyn o bryd, fel yn y gorffennol, i annog entrepreneuriaid ifanc i ddechrau busnesau newydd ac i arloesi (blaenoriaeth YESS a Cyswllt Ffermio i rai o dan 40 oed). Mae’r rhain yn dangos y manteision sydd i’w cael o annog pobl ifanc i lwyddo. Gellid dysgu gwersi o’r mentrau hyn a gwneud rhagor o waith gyda sefydliadau allweddol fel CFfI Cymru. Mae grantiau neu fenthyciadau sefydlu neu gychwyn busnes, yn enwedig i bobl ifanc â syniadau arloesol, yn ffordd o’u denu a’u cadw yn y diwydiant bwyd. Mae cynigion ar gyfer Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 yn cynnwys y potensial ar gyfer benthyciadau ac adnoddau ariannol eraill. Gellid defnyddio’r rhain i gefnogi mentrau bwyd a diod newydd sy’n dechrau.

Rhaid i hyfforddiant chwarae rhan yn hyn hefyd. Mae Cymdeithas Pysgotwyr Cymru yn bwriadu datblygu cwrs Pysgota Amgylcheddol. Maent am i hwn fod yn gymhwyster gorfodol cyn y gall unrhyw bysgotwr weithredu. Byddai’n gwrs coleg ac yn hyrwyddo manteision y diwydiant pysgota.

**C8 Sut y gellid perswadio cyflogwyr y diwydiant bwyd i weld buddsoddi mewn hyfforddiant yn fudd yn hytrach nag yn gost?**
Mae hyfforddiant i weithwyr y diwydiant bwyd yn elfen allweddol o'r Cynllun Gweithredu. Gall staff wedi'u hyfforddi'n dda fod yn effeithlon a gallu bodloni safonau amgylcheddol gofynnol, gan arbed arian yn y tymor hir. Mae staff wedi'u hyfforddi'n dda hefyd yn debygol o fod yn fwy ymroddedig, gan helpu i wella cyfraddau cadw staff.

**C9 Sut y gellid annog gweithwyr ym maes bwyd i ymrwymo i hyfforddi a datblygu eu gyrfa yn y diwydiant bwyd?**
Nid oes gennym unrhyw sylwadau.

**C10 Sut y gallai darparwyr hyfforddiant ddarparu hyfforddiant yn fwy effeithlon?**
Nid oes gennym unrhyw sylwadau.

**C11 Pa dargedau fyddech chi'n meddwl fyddai'n briodol i'r diwydiant bwyd a diod a sut y dylid eu mesur?**
Nid oes gennym unrhyw sylwadau.

**C12 Pa gamau y byddech chi'n eu hawgrymu er mwyn sicrhau bod y diwydiant bwyd yn tyfu yng Nghymru a bod marchnadoedd newydd yn cael eu datblygu?**
Nid oes gennym unrhyw sylwadau.

**C13 Beth yw'r camau pwysicaf er mwyn sicrhau bod masnach yn tyfu?**
Nid oes gennym unrhyw sylwadau.

**C14 Pa ddulliau/camau eraill a allai gryfhau enw da Cymru am fwyd o safon/fel cyrchfan bwyd o safon?**
Nid oes gennym unrhyw sylwadau.

**C15 Pa bartneriaid (sefydliadau a phrif ddylanwadwyr) y byddech chi'n eu hawgrymu er mwyn cryfhau ac ychwanegu gwerth i'n diwylliant bwyd o safon yng Nghymru?**
Mae ffermwyr a physgotwyr yn bartneriaid amlwg. Mae datblygiad y sector bwyd-amaeth dros y blynyddoedd diwethaf eisoes wedi creu cysylltiadau agos, yn enwedig drwy nifer y siopau fferm neu fusnesau gwerthu uniongyrchol a sefydlwyd. Mae'r rhan fwyaf yn gwerthu eu cynnyrch eu hunain ac mae gwerthiant uniongyrchol yn ffordd bwysig i ffermwyr allu ychwanegu gwerth yn ogystal â gwella eu safonau eu hunain er mwyn ateb y galw gan gwsmeriaid am gynnyrch o ansawdd. Rhai o'r sefydliadau partner allweddol sy'n cynrychioli ffermwyr a physgotwyr yw NFU Cymru, FUW, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad, CFfI Cymru, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru a Chymdeithas Cynhyrchwyr Cregyn Gleision Bangor.

Gan fod y rhan fwyaf o ffermydd Cymru yn eithaf gwledig, mae'r farchnad dwristiaeth yn bwysig iawn ar gyfer llawer o'r gwerthiant gwerth ychwanegol hwn. Ceir llawer o gyfleoedd i gynhyrchwyr cynradd werthu'n llwyddiannus ar y we a thrwy ddulliau eraill wedi'u hwyluso gan dechnoleg. Ceir enghreifftiau da o'r sector bwyd yn gweithio'n glòs ag amryw o fentrau twristiaeth yng Nghymru. Y Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol fyddai'r partneriaid allweddol yn y gwaith hwn.

Hefyd, ceir rhai grwpiau o ffermwyr sy'n marchnata'n gydweithredol, er enghraifft drwy Fenter Mynyddoedd Cambria sy'n gwerthu cig oen Mynyddoedd Cambria i

archfarchnadoedd, cigyddion lleol, cwmnïau tai bwyta ym mhen uchaf y farchnad yn Llundain, amryw o ddigwyddiadau blaenllaw yn y DU (Wimbledon) ac ar sianel siopa QVC ar y teledu. Mae cynhyrchwyr Menter Mynyddoedd Cambria yn dilyn egwyddorion allweddol cytûn sy'n sail i'w hethos ar gyfer cynhyrchu a chyflenwi cig oen, gan ymchwilio i ôl troed carbon nifer fach o'u ffermydd. Mae'r gwaith arloesol hwn yn ategu egwyddor Cynhyrchu Cynaliadwy ac mae yna botensial i'w ddatblygu ymhellach a'i gyflwyno'n ehangach yng Nghymru.

Ymhlith enghreifftiau da eraill o gynhyrchu cig oen yn gynaliadwy gan ychwanegu gwerth mae Cig Oen Dolaucothi a Fferm Ifan, sy'n cael eu rhedeg gan grwpiau'n ffermio ar dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Nod Cwrs Pysgota Amgylcheddol arfaethedig Cymdeithas Pysgotwyr Cymru, y soniwyd amdano'n flaenorol, yw darparu elfen o ddiogelwch a tharddiad i'r cynnyrch. Cam arall i gael y fenter wedi'i chydnabod fyddai i fanwerthwyr sicrhau mai dim ond o longau a chychod y mae eu gweithredwyr wedi ennill y cymhwyster amgylcheddol y daw eu cynnyrch; gallai hyn greu gwerth ychwanegol i'r cwrs a'r brand.

Ceir cysylltiadau cryf â'r Cynllun Datblygu Gwledig newydd ar gyfer Cymru. Mae'r ymgynghoriad ar y cynllun yn cyfeirio'n benodol at ddatblygu'r gwaith o brosesu bwyd, gwerthu uniongyrchol a marchnadoedd lleol. Bydd angen i Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru weithio'n glòs â'r mesurau perthnasol o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru er mwyn sicrhau'r budd gorau i'r economi wledig a chefnogi datblygu cynaliadwy.

**C16 Beth yw eich barn chi am gysylltu amcanion amgylcheddol ag amcanion busnes pan ddarperir arian gan y sector cyhoeddus?**

Mae amcanion amgylcheddol y Cynllun yn ganolog i Gynhyrchu Cynaliadwy, gan gynnwys gwarchod priddoedd, maint cyflenwadau ac ansawdd dŵr, bioamrywiaeth, carbon, anifeiliaid hela gwyllt, cyflenwadau pysgod neu bysgod cregyn, a sicrhau effeithlonrwydd adnoddau. Mae'r materion hyn yn berthnasol pa un a yw cynhyrchiant yn galw am arian sector cyhoeddus ai peidio. Rhaid i'r gadwyn gyflenwi gyfan fod yn gydnaws ag ymrwymiadau Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r amgylchedd (fel y Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd) a chydnabod bod rheoleiddio da yn dda i fusnes (Hwyluso'r Drefn). Dylai Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru roi ei gefnogaeth lwyr i agenda Twf Gwyrdd Llywodraeth Cymru.

**C17 Pa gamau y byddech chi'n eu hawgrymu i leihau ôl troed carbon y diwydiant bwyd yng Nghymru?**

Mae mwy i gynhyrchu cynaliadwy nag ôl troed carbon (neu ôl troed ecolegol) bwyd yn unig – mae'n ymwneud â phroses wedi'i hintegreiddio'n llawn fel y nodwyd yn yr ateb i C16. Mae Map Ffyrdd Cig Coch yn fodel posibl sy'n cydnabod effeithiau ar ddŵr a bioamrywiaeth yn ogystal â charbon.

Mae'n werth nodi nad yw'r cynllun yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at y Cynllun Sector Gweithgynhyrchu, Gwasanaethau a Manwerthu Bwyd drafft (Tuag at Ddyfodol Diwastraff; Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned). Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y cynllun drafft hwn ym mis Gorffennaf 2011 ond nid yw wedi'i gyhoeddi eto. Mae'r cynllun yn ymdrin â gwastraff bwyd a deunydd pacio cysylltiedig o weithgynhyrchwyr a phroseswyr bwyd i gyfanwerthwyr, manwerthwyr a'r sector gwasanaeth. Ei nod yw atal a lleihau gwastraff, a chynyddu lefelau ailgylchu gan fusnesau yn y sectorau hyn. Bydd y cynllun yn gwneud hyn fel rhan o feini prawf

cynaliadwyedd ar gyfer busnesau ac annog newid ymddygiad ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi ac ymhlith defnyddwyr terfynol.

Rhaid ymdrechu i annog pobl Cymru i fwyta bwydydd lleol fel pysgod a physgod cregyn yn hytrach na'i allforio neu fewnforio bwydydd eraill.

**C18 Sut y gallwn ni annog rhagor o fusnesau i arloesi wrth ddatblygu eu cynnyrch a'u prosesau?**
Mae'r dulliau'n cynnwys grantiau / benthyciadau ar gyfer treialon amrywiol yn enwedig i gynhyrchwyr a phroseswyr newydd, a gellid eu cefnogi gan y Cynllun Datblygu Gwledig newydd ar gyfer Cymru. Rhaid cael disgwyliad na fydd pawb yn llwyddo a chaniatáu i ganran fethu. Mae hyn yn debyg iawn i ddull LEADER o weithredu, sy'n derbyn bod risgiau ynghlwm wrth arloesi, ond y bydd enillion yn gyffredinol.

Mae ansawdd ac argaeledd yr adnoddau crai sy'n cael eu defnyddio gan y sector bwyd a diod yn allweddol. Mae gan Gymru fantais fawr dros lawer o'i chystadleuwyr oherwydd ansawdd ei hamgylchedd a'r adnoddau y mae'n eu cynnig. Fodd bynnag, er mwyn cadw'r fantais hon, rhaid i'r sector sicrhau ei fod ar flaen y gad. Un ffordd y gall y Llywodraeth a'i hymgynghorwyr roi cymorth yw drwy sicrhau y gall y sector ddod o hyd i wybodaeth am arferion gorau o ran defnyddio adnoddau a'r prosesau sydd ynghlwm wrth gynhyrchu effeithlon ac arloesol. Bydd hyn nid yn unig yn sicrhau bod y sector yng Nghymru yn cael ei ystyried ymhlith y goreuon, gan annog cwmnïau eraill tebyg i fuddsoddi yma, ond hefyd bydd yn helpu cwmnïau i leihau eu costau cynhyrchu. Er enghraifft, mae dŵr yn nwydd pwysig i'r sector. Bydd ei ddefnyddio'n effeithlon nid yn unig yn lleihau'r bil dŵr, ond yn aml caiff ei bwmpio a'i gynhesu wrth gynhyrchu, felly bydd unrhyw leihad yng nghyfaint y dŵr sy'n cael ei ddefnyddio yn lleihau costau ynni hefyd. Yn yr un modd, bydd defnyddio llai o ddŵr yn golygu na fydd cymaint o ddŵr budr i gael gwared arno, gan arbed rhagor o gostau.

**C19 Ac ystyried pwysigrwydd arloesi, a ddylai hyn fod yn un o themâu cyffredinol y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod?**
Gan ddilyn yr egwyddorion arloesi a amlinellwyd uchod, os yw'r sector yn mynd i barhau i fod yn broffidiol, rhaid iddo addasu ac arloesi. Bydd sicrhau mai Cymru sydd â'r cwmnïau sy'n perfformio orau yn creu budd mawr ac yn denu mwy o fewnfuddsoddi. Ar yr un pryd, bydd yn tynnu sylw at bwysigrwydd a gwerth ein hadnoddau naturiol o safon, gan sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yn awr ac yn y dyfodol.

**C20 Pa fath o ymyriadau a chymorth gan y Llywodraeth fyddai orau gennych chi er mwyn gwella effeithlonrwydd busnesau bwyd?**
Nid oes gennym unrhyw sylwadau.

**C21 Beth fyddech chi'n ei gynnig yn lle cymorth grant i helpu busnesau i dyfu ac ehangu?**
Dewis arall fyddai benthyciadau. Mae Cynllun Datblygu Gwledig newydd Cymru yn argymell cyflwyno benthyciadau yn ogystal â grantiau ac ar gyfer y Cynllun Gweithredu, gallai hyn fod yn ffordd effeithiol o ailgylchu arian dros amser fel bod mwy o fusnesau'n elwa.

**C22 Beth arall y dylid ei wneud i ddatrys y bylchau mewn sgiliau yn y diwydiant?**
Nid oes gennym unrhyw sylwadau.

**C23 Beth arall y dylai Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu i integreiddio cadwyni cyflenwi bwyd?**
Nid oes gennym unrhyw sylwadau.

**C24 Beth y dylai'r diwydiant ei wneud yn wahanol er mwyn sicrhau cadwyn gyflenwi integredig?**
Nid oes gennym unrhyw sylwadau.

**C25 Beth arall y dylid ei wneud i wella diogelwch bwyd?**
Nid oes gennym unrhyw sylwadau.

**C26 Beth arall y gellid ei wneud i leihau tlodi bwyd?**
Nid oes gennym unrhyw sylwadau.

**C27 Sut y gallwn ni hybu'r agenda bwyta'n iach?**
Nid oes gennym unrhyw sylwadau.

**C28 A fyddech chi'n cytuno â darparu rhagor o gymorth (ariannol a chymorth o fathau eraill) i fusnesau bwyd sy'n datblygu cynhyrchion iach?**
Nid oes gennym unrhyw sylwadau.

**C29 A ydych chi'n cytuno â'r rhestr uchod ynteu a oes is-sectorau eraill y dylid eu hystyried?**
Nid oes gennym unrhyw sylwadau.

**C30 Pa flaenoriaethau yr hoffech chi eu rhestru gyda golwg ar yr is-sectorau unigol?**
Nid oes gennym unrhyw sylwadau.

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes materion cysylltiedig nad ydym wedi sôn amdanynt yn benodol, croeso ichi ddefnyddio'r lle isod i sôn amdanynt:**

Mae'r Camau Gweithredu a restrir yn Atodiad 2 y Cynllun yn benodol eu natur i raddau helaeth, ond cawsant eu datblygu cyn yr ymarfer ymgynghori ac felly, cyn cwblhau'r Cynllun. Rydym yn awgrymu y dylid ailedrych ar y Camau Gweithredu hyn ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad, ac y dylai'r argymhellion allweddol fod yn llinyn cyson o'r Cynllun i'r Camau Gweithredu. Er enghraifft, yn adran Datblygu'r Farchnad a Thwf mae'r cynnig 'Bydd cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol wrth wraidd pob ymyriad', ond nid yw'r Camau Gweithredu a restrir yn sôn am gynaliadwyedd nac yn nodi sut y gellid ei wneud yn rhan annatod o'r modd y caiff y Cynllun ei gyflawni. Dylai ein hawgrym (ateb i C3) y dylid cynnwys Cynhyrchu Cynaliadwy fel un o'r blaenoriaethau wneud cynaliadwyedd yn ffocws mwy amlwg i waith y Ffederasiwn.

Mae CNC yn fodlon i'r ymateb hwn fod ar gael i'r cyhoedd ei weld.

**Cyfoeth Naturiol Cymru**

**Chwefror 2014**